**BWRDD(22-03)Cofnodion**
**Preifat a Chyfrinachol**

**Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod Bwrdd S4C** **Cyfarfod Rhif 456**
**17eg Mawrth 2022 - Cyfarfod rhithiol, 09.30**

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau Anweithredol y Bwrdd:** | Rhodri Williams | (Cadeirydd) |
| | Guto Bebb | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Anita George | (Aelod o'r Bwrdd) – o eitem 4 ymlaen |
| | Adele Gritten | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Chris Jones | (Aelod o'r Bwrdd) |
| | Denise Lewis | (Aelod o'r Bwrdd) |
| **Aelodau Gweithredol:** | Siân Doyle | (Prif Weithredwr) |
| | Elin Morris | (Prif Swyddog Gweithredol) |
| | Geraint Evans | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| **Staff S4C oedd yn bresennol:** | Geraint Pugh | (Ysgrifennydd y Bwrdd) |
| | Rhidian Dafydd | (Cyfarwyddwr Prosiectau) – ar gyfer eitem 4 |
| | Bethan C Williams | (Cynorthwyydd Ysgrifennydd y Bwrdd) |

| **COFNODION** | | |
|---|---|---|
| | **MATERION SEFYDLOG:** | |
| 1. | **Croeso a Datganiadau Diddordeb**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i gyfarfod Bwrdd Unedol S4C.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelodau oedd â diddordeb penodol ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan hynny. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd, ac fe atgoffodd y Cadeirydd bawb o'r angen i ddiweddaru eu datganiadau buddiant. | |
| 2. | **Adroddiad y Cadeirydd** | |
| 3 | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br>Cyflwynodd SD ei hadroddiad gan gyfeirio at y materion isod.<br>Adroddwyd fod sgwrs ddefnyddiol iawn wedi digwydd gyda Tim Davie, lle cafwyd addewid y byddai'n hwyluso'r cydweithio mewn perthynas â'n hanghenion ar gyfer iPlayer. Diolchodd AdG i SD am ei gwaith wrth geisio cael mynediad i ddata iPlayer, gan y gwyddai fod hyn wedi bod yn amhosib yn y gorffennol.<br><br>Amlinellodd GE y cynlluniau, o ran y rhaglenni sydd ar y gweill, gan gynnwys cyngerdd arbennig i'r Wcráin ar Ebrill 2ail yn Aberystwyth, a nodwyd fod DEC wedi croesawu'r ffaith fod rhywbeth fel hyn yn digwydd yng Nghymru. Gobeithir gallu cyhoeddi'r manylion yn gyhoeddus yn y dyddiau nesaf.<br><br>Cynhelir cyfarfodydd staff mewn person ar 22ain a 23ain o Fawrth. Nodwyd fod ychydig o ail-drefnu wedi digwydd gan greu dau gyfarfod dros ddau ddiwrnod yn hytrach nag un cyfarfod ar gyfer pawb, gan fod nifer o achosion cofid dal yn uchel. Yn ystod y ddau ddiwrnod gobeithir y bydd modd i staff roi eu hadborth ar y strategaeth newydd a cheisio gwneud yn siŵr fod pawb yn deall beth fydd eu rôl wrth symud ymlaen i weithredu'r strategaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddwyd bod bwriad i gwrdd â swyddogion o'r DCMS yn y prynhawn wedi cyfarfod y Bwrdd yng Nghaerdydd, er mwyn rhannu'r strategaeth newydd gyda nhw hefyd.<br><br>Roedd trefniadau ar y gweill i SD fynychu MIP yn Cannes, gan sicrhau fod cyfarfodydd penodol wedi'u trefnu yno. Roedd SD hefyd wedi cwrdd gyda Jeremy Evas o Lywodraeth Cymru i drafod beth gall S4C gyfrannu mewn perthynas â'r cynllun i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg, gan ymgorffori'r cynlluniau rheini mewn i'n strategaeth ni.<br><br>Roedd CJ hefyd yn cytuno a bod angen i ni gael dealltwriaeth o sut y gallwn ni gyfrannu tuag at y targedau erbyn 2050. Adroddodd SD bod bwriad i ni geisio amlinellu'n glir ein strategaeth ni a gobeithir y bydd adroddiad yn dod i'r Bwrdd ym mis Mai. Nodwyd hefyd bod cynllun cyfathrebu yn cael ei lunio i gyd-fynd a'r holl waith. | |
| **4.** | **Strategaeth 2022–27**<br><br>Cyflwynwyd drafft diwygiedig o Strategaeth 2022–27.<br><br>Amlinellodd SD y newidiadau diweddaraf i'r Strategaeth gan nodi fod rhai mân newidiadau angen eu gwneud, yn arbennig o ran y sleid gwerthoedd ac amrywiaeth.<br>Mae wyth piler i'r strategaeth, gydag aelodau unigol o'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am wahanol bileri – byddai hyn yn sicrhau bod un person amlwg yn gyfrifol am symud pethau ymlaen.<br><br>Byddai'r dashfwrdd sydd wedi ei ddatblygu i fonitro cyflawni'r strategaeth yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfodydd misol y Tîm Rheoli, cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd, ac yna i'r DCMS.<br><br>Bydd hefyd modd mesur cyflawni yn erbyn bob piler, ac mae Kantar yn helpu gyda'r gwaith i ddatblygu mesuryddion addas – yn enwedig mewn perthynas â'r piler 'adnabod ein cynulleidfa'.<br><br>Nododd DL ei bod yn bwysig fod elfen ryngwladol, a'n bod yn edrych y tu hwnt i Gymru, a nododd SD fod hwn yn ystyriaeth yn y strategaeth.<br><br>Croesawodd CJ y fersiwn newydd, ond nododd ei bod yn bwysig ein bod yn dod i adnabod ein gwylwyr fel unigolion, yn hytrach na mewn bylociau mawr. Rhaid felly personoleiddio'r profiad.<br><br>Teimlai'r Cadeirydd fod hwn yn gam mawr ymlaen, gan fynegi'n glir yr hyn rydym wedi bod yn chwilio amdano.<br><br>Byddai cynllun cyfathrebu hirdymor yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfathrebu maes o law. Awgrymodd SD y byddai o bosib yn comisiynu arbenigwr allanol i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r cynllun hwn.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**I gymeradwyo Strategaeth 2022 yn ffurfiol, ynghyd â'r dashfwrdd ar gyfer monitro cyflawni'r Strategaeth.** | **SD** |
| 5. | **Datganiad Polisi Rhaglenni 2022–23** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd GE amlinelliad o bolisi rhaglenni ar gyfer 2022-23. Nododd fod y strategaeth newydd yn caniatáu i ni ddangos ble yn union fydd ein cynnwys ar gael. Prif amcan y strategaeth yw creu mwy o ddrama o safon uchel, a chreu cynulleidfa newydd amrywiol.<br><br>Amlinellwyd rhai o'r cynlluniau sydd ar y gweill, gan gynnwys ffilm Y Golau, sydd yn gyd-gynhyrchiad gyda Channel 4; Dal y Mellt ac ail gyfres o'r Amgueddfa, ynghyd a ffilm Y Sŵn, sy'n olrhain hanes y frwydr am y sianel.<br><br>Mewn perthynas â rhaglenni materion cyfoes adroddwyd fod Pawb a'i Farn a'r Byd ar Bedwar yn parhau, a'r Byd yn ei Le gyda chyflwynydd newydd. Bwriedir hefyd gwneud mwy o gynnwys yn y maes i ddysgwyr ac i blant a phobl ifanc.<br><br>Roedd nifer o gynyrchiadau eraill cyffrous ar y gweill gan gynnwys gobeithio rhaglenni am Gymru yng Nghwpan y Byd. Ymysg rhaglenni chwaraeon eraill bydd pecyn o uchafbwyntiau Gemau'r Gymanwlad a Chwe Gwlad Merched Cymru. O ran strategaeth chwaraeon, mae bwriad i barhau gyda chwaraeon llawr gwlad mewn pêl-droed a rygbi, gan gadarnhau ymrwymiad S4C i chwaraeon ar bob lefel. Fodd bynnag, roedd bwriad i ystyried sut gellid amlygu'r brand S4C Chwaraeon.<br><br>Holodd AdG beth ydy'r cynllun i ddenu dysgwyr ifanc, oed Cyw, at y gwasanaeth. Nododd GE fod cynllun peilot yn Sir Gar, sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gar ac S4C, sydd yn cyflogi dwy athrawes sydd yn annog ysgolion i ddefnyddio adnoddau Cyw mewn ysgolion, gan geisio denu'r rhieni hefyd ddod yn rhan o'r prosiect. Hwn yn gyfle i farchnata'n ehangach gynnwys S4C i'r rhieni. Os yw'r cynllun yn profi'n llwyddiannus, yna bydd modd ei rowlio allan dros Gymru, gan glymu mewn gyda'r cwricwlwm newydd.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Cymeradwywyd y Datganiad o Bolisi Rhaglenni ar gyfer 2022–23, i'w gyflwyno i Ofcom.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**GP** |
| 6. | **Rheolau Sefydlog**<br><br>Cyflwynodd GP ddiweddariad o adolygiad i'r Rheolau Sefydlog. Awgrymwyd mân newidiadau, a diolchodd i AG am ei hadborth yn ystod y broses.<br><br>Nodwyd y dylai'r Rheolau Sefydlog gynnwys cyfeiriad at y Bwrdd yn cymeradwyo archwaeth risg S4C, ar y cyd ag asesu prosesau ariannol.<br><br>**Penderfyniad:**<br>**Y byddai GP yn cylchredeg fersiwn ddiwygiedig o'r Rheolau Sefydlog dros e-bost i'w gymeradwyo'n ffurfiol.** | <br><br><br><br><br>**GP**<br><br><br><br>**GP** |
| 7. | **Adolygiad rhwng y Bwrdd a'r Bwrdd Masnachol**<br><br>Cyflwynodd GP adroddiad yn dilyn ei adolygiad o weithdrefnau'r Bwrdd Masnachol, a'r berthynas rhyngddo a'r Bwrdd Unedol.<br><br>Un o'r argymhellion oedd y dylid cael 'swyddog enwebedig' i sicrhau fod buddiannau'r Bwrdd Unedol yn cael eu gwarchod, gan fod aelodau'r Bwrdd Unedol oedd yn gwasanaethu fel cyfarwyddwyr yr is-gwmnïoedd masnachol yn rhwym i wneud yr hyn oedd orau i'r is-gwmnïoedd hynny, yn hytrach na'r Bwrdd Unedol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Nododd AG fod rhywfaint o wrthdaro wrth ystyried pryniant PTG, gan na fyddai hwnnw'n fantais ariannol i'r Bwrdd Masnachol ond yn hytrach yn fantais i S4C fel corff, felly byddai swyddog enwebedig wedi sicrhau fod y gwrthdaro yn cael ei reoli'n gywir.<br><br>Yn ogystal, roedd bwriad i adrodd ar weithgaredd y Bwrdd Masnachol ar wahân i weddill o'r pwyllgorau, gan ei gadw'n endid ar wahân. Trafodwyd p'un ai i gadw'r enw Bwrdd Masnachol, ac fe gynigiwyd defnyddio'r teitl Bwrdd y Grŵp Masnachol yn y dyfodol.<br><br>Nodwyd y byddai angen ail-edrych ar drefniadau'r is-gwmnïoedd masnachol eto unwaith y bydd SD wedi gwneud mwy o waith o ran strategaeth fasnachol hir-dymor.<br><br>**Penderfyniadau:** | |
| | **I ail-enwi'r 'Bwrdd Masnachol' presennol yn 'Bwrdd y Grŵp Masnachol'.** | **GP** |
| | **I lunio Cytundeb Cyfranddalwyr ar gyfer yr is-gwmnïau masnachol er mwyn dogfennu trefniadau rhedeg y cwmnïau, a disgwyliadau'r Bwrdd Unedol.** | **EM / GP** |
| | **I wahodd Bwrdd y Grŵp Masnachol i ddatblygu strategaeth pum mlynedd, a chynllun busnes blynyddol – i'w gymeradwyo gan y Bwrdd Unedol cyn gynted â phosib – a thrwy hynny cynnig cyfle i ddiffinio pwrpas gweithgareddau masnachol S4C a sut mae'n creu gwerth i'r Grŵp yn ehangach.** | **SD / EM** |
| | **I ddiwygio Rhaglen Waith y Bwrdd Unedol i gynnwys diweddariadau dwywaith y flwyddyn ar berfformiad y gweithgareddau masnachol yn erbyn y cynllun busnes a gytunwyd.** | **GP / BCW** |
| | **I gynnwys cyflwyno cyfrifon blynyddol yr is-gwmnïoedd masnachol unigol i'r Bwrdd Unedol ar Raglen Waith y Bwrdd Unedol.** | **GP / BCW** |
| | **I benodi Ysgrifennydd y Bwrdd Unedol fel 'Swyddog Enwebedig' i fynychu cyfarfodydd Bwrdd y Grŵp Masnachol fel arsylwr ar ran y Bwrdd Unedol.** | **GP** |
| 8. | **Rhaglen Waith a Strwythur y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd y Rhaglen Waith y Bwrdd a'r is-bwyllgorau ar gyfer 2022–23. Nodwyd mai dogfen fyw fydd hi, ac y byddai angen diwygio dros y flwyddyn wrth i waith y strategaeth newydd ddatblygu.<br><br>Yn dilyn trafodaethau pellach ynghylch cylch gorchwyl diwygiedig ar gyfer y Pwyllgor Cyfathrebu, roedd drafft newydd wedi ei gylchredeg i'w ystyried gan y Bwrdd.<br><br>Gan fod mwy o bwyllgorau, roedd angen lleihau nifer yr aelodau ar bob un. Byddai hefyd angen penodi aelodau i'r Pwyllgor Pobol a Thaliadau. Awgrymwyd y dylid aros i'r aelodau anweithredol newydd gael eu penodi gan y DCMS cyn ystyried aelodaeth y pwyllgorau ymhellach.<br><br>Diolchwyd i GP am ei waith trylwyr o roi trefn briodol ar y pwyllgorau.<br><br>**Penderfyniad:** | |
| | **Cymeradwywyd y cylch gorchwyl newydd ar gyfer y Pwyllgor Cyfathrebu.** | **GP** |
| 9. | **Cofnodion / Adroddiadau a Materion yn Codi** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cymeradwywyd y cofnodion o gyfarfod Bwrdd mis Chwefror ac fe gyflwynwyd y cofnodion isod o'r pwyllgorau er gwybodaeth:<br>• Y Pwyllgor Archwilio (16.02.22)<br>• Y Pwyllgor Cynnwys (07.03.22)<br><br>Ni thrafodwyd unrhyw faterion oedd yn codi. | |
| 10. | **Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Cyflwynwyd diweddariad ar y pwyntiau gweithredu. Diolchodd CJ i GP a BCW am ddiwygio fformat y pwyntiau gweithredu. | |
| 11. | **Penderfyniadau Rhwng Cyfarfodydd**<br><br>Tynnwyd sylw at benderfyniad a ddigwyddodd ers cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd:<br><br>Cymeradwywyd penodiad Geraint Evans i'r swydd Gyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi ar y Tîm Rheoli. | |
| 12. | **Unrhyw fater arall**<br>ESG<br>Holodd DL os ydym am gynnwys cyfeiriad at ESG yn ein hadroddiad blynyddol. Nododd SD fod hyn wedi'i drafod gyda GP ac y bydd yn cael ystyriaeth bellach. | |

**Rhodri Williams, Cadeirydd y Bwrdd** **Dyddiad**

**Dyddiad cyfarfod nesaf y Bwrdd:**
**Cwrdd i ffwrdd: 28 Ebrill, 2022 yng Nghaerdydd**